Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

# Y Gyllideb Ddrafft

Medi 2008

## Trosolwg o broses y Gyllideb Ddrafft

Y gyllideb ddrafft yw'r cam cyntaf[1] ym mhroses y gyllideb y darperir ar ei chyfer yn **Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**. Mae Rheolau Sefydlog 27.1 i 27.6[2] yn ymdrin â'r gyllideb ddrafft ac yn ei gwneud yn ofynnol i un o Weinidogion Cymru osod cyllideb ddrafft gerbron y Cynulliad, gan nodi symiau'r adnoddau a'r arian parod y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio at y flwyddyn ariannol nesaf (a symiau dros dro at y ddwy flynedd wedyn), a hyn erbyn 7 Hydref fan bellaf.

Caiff pwyllgorau craffu ystyried y gyllideb ddrafft a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Cyllid heb fod yn hwyrach na phythefnos ar ôl i'r gyllideb ddrafft gael ei gosod. Yn ei dro, rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried y gyllideb ddrafft a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad dim mwy na phedair wythnos ar ôl i'r gyllideb ddrafft gael ei gosod. Rhaid i adroddiad y Pwyllgor Cyllid atodi unrhyw argymhellion sydd wedi dod i law oddi wrth bwyllgorau craffu eraill.

Caniateir (ond nid yw'n ofynnol) i adroddiad y Pwyllgor Cyllid argymell newidiadau i'r gyllideb ddrafft, ar yr amod nad yw'r newidiadau hynny'n newid cyfanswm y symiau sydd wedi'u cynnig yn y gyllideb ddrafft – i bob pwrpas, rhaid i unrhyw newidiadau a argymhellir adio i sero. O fewn pythefnos ar ôl adroddiad y Pwyllgor Cyllid, rhaid i'r Cynulliad ystyried cynnig, a gyflwynir gan un o Weinidogion Cymru, ei fod yn nodi'r gyllideb ddrafft.[3] Caniateir i welliannau gael eu cyflwyno ar yr adeg hon, ar yr amod nad ydyn nhw'n newid y cyfansymiau a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft.

## Deall Tablau'r Gyllideb

Mae gwybodaeth am y gyllideb yn cael ei chyhoeddi ar **dudalennau Cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru**. O'r tudalennau hyn gellir gweld cyllideb gyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chyllidebau'r blynyddoedd blaenorol.[4]

---

[1] Roedd dull gweithredu'r broses gyllideb flaenorol (o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*) yn darparu cyfnod ychwanegol ar gyfer blaenoriaethau'r Pwyllgorau. Er nad yw'r cyfnod hwn yn bodoli'n ffurfiol bellach o dan y broses newydd, y bwriad yw y bydd proses y pwyllgorau craffu o archwilio cyllidebau'r adrannau, eu gwariant a'u perfformiad o'i gymharu â'r polisïau yn parhau drwy gydol y flwyddyn.
[2] Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Hydref 2007). [fel yr oedden nhw ar 13 Awst 2008].
[3] Ni chaniateir i gynnig gael ei wneud yn y cyfarfod llawn mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft nes bod y Pwyllgor Cyllid wedi gwneud ei adroddiad yn unol â gofynion y Rheolau Sefydlog.
[4] Ar gyfer cylch cynllunio 2004, cafodd dogfen ychwanegol ei chyhoeddi o dan y teitl *Cyllideb ar gyfer Dyfodol Cymru, Cynlluniau Gwariant Llywodraeth y Cynulliad 2005-06 i 2007-08*. Nododd y ddogfen hon gynlluniau cyllideb Llywodraeth y Cynulliad o 2005-06 i 2007-08, gan anelu at gyflwyno'r wybodaeth ariannol mewn ffordd sy'n cyplysu'r gwariant yn agosach â nodau polisi a rhaglenni i'w cyflawni ym mhortffolio pob Gweinidog. [y ddolen fel yr oedd ar 13 Awst 2008].

Mae'r gyllideb yn cael ei dadansoddi ar sawl lefel manylder:

- **Prif Grwpiau Gwariant (MEGs)** – sy'n cyfateb i bortffolios y Gweinidogion.
- **Meysydd Rhaglenni Gwariant (SPAs)** – sy'n diffinio grwpiau pendant o wariant o fewn pob MEG, (megis cyllideb pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad).
- **Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs)** – sy'n dadansoddi pob SPA yn ôl y meysydd polisi neu'r mentrau sy'n rhan ohono.
- Y tu ôl i bob BEL ceir codau cyfrifon. Oherwydd lefel uchel y manylder ar lefel y cod cyfrif, fydd gwybodaeth am y gyllideb ddim yn cael ei chyhoeddi o dan lefel y BEL fel arfer.

Mae tablau'r gyllideb yn dangos tablau cryno ar gyfer y MEGs, wedi'u rhannu yn Derfynau Gwariant Adrannol (DELs)[5] a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME),[6] sy'n dangos y refeniw a'r cyfalaf i bob MEG. Dilynir hyn gan y gyllideb ar gyfer pob portffolio neu MEG yn nhermau'r adnoddau. Mae cyllideb pob MEG yn cynnwys tabl i bob un o'r cyfansymiau rheoli (DEL Refeniw, DEL Cyfalaf ac AME). Ym mhob un o'r tablau hyn dangosir y SPAs ynghyd â'r BELs y manylir arnynt ar gyfer pob SPA.

## Cymharu tablau cyllideb y Gyllideb Ddrafft

Wrth ddadansoddi'r Gyllideb ddrafft mae'n bosibl gwneud llawer o gymariaethau gwahanol. Mae'r tabl canlynol yn dangos rhai o'r cymariaethau hyn. Nid cymariaethau gorfodol yw'r rhain, ond yn hytrach awgrymiadau ar gyfer penawdau cymariaethau a allai fod yn fan cychwyn buddiol i graffu ar y gyllideb ddrafft.

**Dangosir y fformiwlâu a ddefnyddir i wneud y cymariaethau mewn cromfachau yn labeli'r ffigurau.**

[5] **Terfynau Gwariant Adrannol (DELs)** – fel arfer yn cael eu gosod dros dair blynedd fel rhan o Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr (CSR) Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r rhan fwyaf o'r DEL heb ei chlustnodi gan ganiatáu disgresiwn llawn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch ei blaenoriaethau gwario (sy'n cael eu galw'n eitemau'r 'gyllideb wedi'i chlustnodi'). Er hynny, mae rhai o elfennau'r DEL wedi'u clustnodi a dim ond at ddibenion penodedig y caniateir eu defnyddio.

[6] **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** – yn cynnwys eitemau nad yw'n rhesymol eu cadw o dan derfynau cadarn dros nifer o flynyddoedd (megis y Polisi Amaethyddol Cyffredin) ac sydd felly'n cael ei adolygu a'i bennu bob blwyddyn (ym mis Mawrth). Mae'r AME yn dilyn y galw a dim ond i'r rhaglen y mae wedi'i chlustnodi iddi y caniateir ei dyrannu. Caniateir i ragor o AME gael ei dynnu i lawr o'r Trysorlys os oes ei angen, tra bydd unrhyw gyfran sydd heb ei gwario yn cael ei hawlio'n ôl gan y Trysorlys.

Mae **Tabl 1** yn dangos tabl cymharu ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2007, gan ddangos y ffigurau a'r colofnau canlynol ar gyfer DEL Refeniw Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

- **Colofn A** – yn dangos disgrifiad o gynnwys y tabl (MEG, SPA a/neu BEL).

- **Colofn B** – yn dangos gwariant cynlluniedig 2007-08 o'r Gyllideb Atodol (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2007).

- **Colofn C** – yn dangos ffigurau gwariant cynlluniedig 2008-09 o Gyllideb Ddrafft 2007.

- **Colofn D** - yn dangos ffigurau gwariant dangosol 2009-10 o Gyllideb Ddrafft 2007.

- **Colofn E** - yn dangos ffigurau gwariant dangosol 2010-11 o Gyllideb Ddrafft 2007.

- **Colofn F** – yn cymharu'r hyn y dywedodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu ei wario ar gyfer 2007-08 yn y Gyllideb Atodol (Tachwedd 2007) â gwariant cynlluniedig 2008-09 yng Nghyllideb Ddrafft 2007. Dangosir y cynnydd/gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall fel swm ariannol +/-.

- **Colofn G** – yn cymharu'r hyn y dywedodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu ei wario ar gyfer 2008-09 â gwariant cynlluniedig 2009-10 yng Nghyllideb Ddrafft 2007. Dangosir y cynnydd/gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall fel swm ariannol +/-.

- **Colofn H** - yn cymharu'r hyn y dywedodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu ei wario ar gyfer 2009-10 â gwariant cynlluniedig 2010-11 yng Nghyllideb Ddrafft 2007. Dangosir y cynnydd/gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall fel swm ariannol +/-.

Tabl 1: Cymharu tablau'r Gyllideb Ddrafft o'r naill flwyddyn i'r llall

## HEALTH AND SOCIAL SERVICES MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)

*£000s*

| Budget Expenditure Line | 2007-08 Plans | 2008-09 New Plans | 2009-10 Indicative Plans | 2010-11 Indicative Plans | 2008-09 New Plans cf 2007-08 Plans | 2009-10 Indicative Plans cf 2008-09 New Plans | 2010-11 Indicative Plans cf 2009-10 Indicative Plans |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| LHBs, Trusts and Central Budgets | [illegible] | [illegible] | 4,192,367 | 3,923,248 | 160,917 | 83,715 | -269,119 |
| LHBs, Trusts and Central Budgets - Revenue Receipts | [illegible] | [illegible] | [illegible] | -30,208 | 0 | 0 | 0 |
| LHB and Trust Depreciation, Cost of Capital and Provisions | [illegible] | [illegible] | [illegible] | 109,565 | 0 | 0 | 0 |
| Depreciation Double Count for Capital Expenditure | [illegible] | [illegible] | [illegible] | [illegible] | 0 | 0 | 0 |
| Payments to Contractors | 595,006 | 609,575 | [illegible] | [illegible] | [illegible] | 15,371 | -28,768 |
| FHS Income | -27,952 | -27,952 | [illegible] | [illegible] | 0 | 0 | 0 |
| Wanless Review Implementation | 21,960 | 21,989 | 22,438 | [illegible] | [illegible] | [illegible] | 4,562 |
| Other Health Central Budgets | 102,282 | 105,183 | 156,729 | [illegible] | [illegible] | [illegible] | [illegible] |
| | | | | | | | |
| **NHS Allocations** | **4,611,762** | **4,790,178** | **4,941,259** | **4,594,155** | **178,416** | [illegible] | [illegible] |
| | | | | | | | |
| Education and Training | 190,476 | 188,212 | 187,208 | 192,679 | -2,264 | [illegible] | [illegible] |
| Workforce Development Central Budgets | 90,392 | 101,941 | 102,197 | 96,917 | 11,549 | 256 | [illegible] |
| Care Council for Wales - Revenue | 10,157 | 9,938 | 9,848 | 9,977 | -219 | -90 | [illegible] |
| Care Council for Wales Cost of Capital and Depreciation | 38 | 38 | 38 | 38 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | |
| **Workforce Development** | **291,063** | **300,129** | **299,291** | **299,611** | **9,066** | **-838** | **320** |
| | | | | | | | |
| Information Central Budgets | 29,623 | 29,586 | 29,916 | 30,228 | -37 | 330 | 312 |
| | | | | | | | |
| **Information** | **29,623** | **29,586** | **29,916** | **30,228** | **-37** | **330** | **312** |

**A** Disgrifiad o'r MEG, y SPA a'r BEL L

**B** Gwariant cynlluniedig 2007-08 yn y Gyllideb Atodol (Tachwedd 2007)

**C** Gwariant cynlluniedig 2008-09 yng Nghyllideb Ddrafft 2007

**D** Gwariant dangosol 2009-10 o Gyllideb Ddrafft 2007

**E** Gwariant dangosol 2010-11 o Gyllideb Ddrafft 2007

**F** Cynnydd/gostyngiad yng ngwariant cynlluniedig 2008-09 yng Nghyllideb Ddrafft 2007 o'i gymharu â 2007-08 yn y Gyllideb Atodol (Colofn C-B)

**G** Cynnydd/gostyngiad yng ngwariant dangosol 2009-10 yng Nghyllideb Ddrafft 2007 o'i gymharu â 2008-09 yng Nghyllideb Ddrafft 2007 (Colofn D-C)

**H** Cynnydd/gostyngiad yng ngwariant dangosol 2010-11 yng Nghyllideb Ddrafft 2007 o'i gymharu â 2009-10 yng Nghyllideb Ddrafft 2007 (Colofn E-D)

## Cynghorion ynglŷn â gwaith craffu

Mae'r adran sy'n dilyn yn cynnig cynghorion ynglŷn â gwaith craffu a allai fod yn ddefnyddiol i'r Aelodau a'r Pwyllgorau wrth graffu ar y gyllideb ddrafft. Nid yw'r rhain yn orfodol mewn unrhyw ffordd; y bwriad yn hytrach yw helpu i ystyried, i friffio ac i holi ynglŷn â'r gyllideb a gwaith craffu ariannol.

### Y cefndir a'r cyfle ar gyfer newid

- Faint yw cyllideb yr adran fel canran o gyfanswm cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru?
- Faint o'r gyllideb ddrafft yn yr MEG sy'n wariant ymrwymedig a faint sy'n wariant dewisol? (Er mwyn cydnabod faint o le sydd ar gyfer ad-drefnu rhwng rhaglenni).

### Y perfformiad o'i gymharu â'r targedau

- Ydy'r targedau perfformiad, (er enghraifft y rhai yn **Cymru'n Un**[7]) yn cael eu bodloni gan y patrymau gwario cyfredol?
- Oes yna bryderon ynghylch gallu'r adran i gyflawni ei hymrwymiadau o fewn lefelau arfaethedig yr adnoddau?

### Materion trawsbynciol

- Sut yr aed i'r afael â materion fel cydraddoldeb a chynaliadwyedd?
- Sut y darparwyd ar gyfer effaith ariannol deddfwriaeth newydd neu ddeddfwriaeth arfaethedig yn nyraniadau'r gyllideb ddrafft?
- Sut gysylltiad sydd rhwng unrhyw gyhoeddiadau mawr ar wariant a llinellau gwario unigol? A ydy'r ymrwymiadau hyn yn cyfeirio at gyllid newydd, neu a ydynt yn cynnwys cyllid o gyllidebau blaenorol, ac at ba gyfnod o amser y mae'r ymrwymiadau'n cyfeirio.

### Newidiadau o'r naill flwyddyn i'r llall

- O'i gymharu â Chyllideb Derfynol y llynedd, a oes unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn y SPAs a'r BELs?
- Ydy'r adran wedi colli neu wedi ennill unrhyw gyfrifoldeb dros feysydd polisi neu dros gyflwyno gwasanaethau?
- Gan gyfeirio at y ffigurau alldro diweddaraf sydd ar gael o'r flwyddyn ddiwethaf, oes yna danwario neu orwario ar unrhyw SPAs neu BELS? Oes lwfans wedi'i wneud ar gyfer hyn yn y gyllideb ddrafft?

[7] Gellir dilyn y cynnydd ar amcanion Cymru'n Un drwy gyfrwng Cynllun Cyflenwi Cymru'n Un 2007-2011 [fel yr oedd ar 21 Awst 2008].

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am agweddau ar y gyllideb, cysylltwch ag Eleanor Roy, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (**Eleanor.Roy@Wales.GSI.Gov.UK**)

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, rhowch glic dwbl ar y dolenni.

- **Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru: Cyllid**
- **Proses y Gyllideb yng Nghymru**

Rhagor o Hysbysiadau Hwylus: Rhestr lawn o **Hysbysiadau Hwylus**

**MRS 08/1205/ Eleanor Roy**

**Members' Research Service briefings are compiled for the benefit of Assembly Members and their support staff. Authors are available to discuss the contents of these papers with Members and their staff but cannot advise members of the general public. We welcome comments on our briefings; these should be sent to the Members' Research Service, National Assembly for Wales, Cardiff CF99 1NA or e-mailed to MembersLibrary@wales.gsi.gov.uk**